



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

## COFNODION Y CYNGOR YSGOL

**Dyddiad y cyfarfod** – 10.10.16

**Amser** – 9.00yb

**Lleoliad** – ystafell ddosbarth Mrs Llwyd, 6LI

### Presennol

Gethin Owen-Hughes, Lucy Morgan-Williams,  
Owain Jobbins, Catrin Haf,  
Nel Evans, Alun Roberts,  
Magi Rowlands,  
Anwen Whitehead,  
Mrs Llwyd, Rhodri Francis - un o Lywodraethwyr yr ysgol

1. **Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Gethin**, y Cadeirydd. Croesawodd yn arbennig Mr Rhodri Francis, aelod o fwrdd llywodraethol yr ysgol, i'r cyfarfod.
2. **Absenoldebau** – nodwyd fod Sami o Flwyddyn 4 ac Owen Jac o Flwyddyn 3 yn absennol o'r cyfarfod heddiw.
3. **Siarad â Mr Rhodri Francis** – cafodd aelodau'r pwyllgor gyfle i sôn ychydig wrth Rhodri Francis, aelod o fwrdd llywodraethol yr ysgol, am rôl y Cyngor Ysgol wrth gasglu syniadau cyd-ddisgyblion am ffyrdd o wella'r ysgol, rhaeadru syniadau i'r is-bwyllgorau a goruwchwylio gwaith yr is-bwyllgorau. Soniwyd yn fras am rai o'r materion a drafodwyd yn ein cyfarfodydd ers mis Medi) e.e. diffyg sebon yn y tai bach, cael astroturff ar yr iard, gwersi coginio ym Mhenweddig, rheoli gwastraff bwyd amser cinio, prynu gêmâu newydd i'r dosbarthiadau ar gyfer amser chwarae gwlyb, ac ati). Cafodd Rhodri gyfle hefyd i holi cwestiynau i'r pwyllgor am waith y Cyngor Ysgol.
3. **Unrhyw faterion yn codi** – nododd Gethin fod lle bellach ar arddangosfa'r Cyngor Ysgol yn y neuadd er mwyn i ddisgyblion ychwanegu eu sylwadau/cynigion i'r Cyngor Ysgol ar Post-its am ffyrdd o wella'r ysgol. Darllenwyd rhai o'r sylwadau a gynigwyd eisoes, a phenderfynwyd eu cyfeirio at yr is-bwyllgorau perthnasol:
  - rhoi dwy ysgol a dwy sleid ar Long Ned er mwyn i fwy o blant fedru ei ddefnyddio ar yr un pryd;
  - cael cloch drydanol sy'n atseinio draw ar waelod y cae gan nad yw pawb yn clywed y gloch ar ddiwedd amser chwarae;
  - cael trampolîn anferth allan ar y cae;

Gwefan  
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost  
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

- cael cwrs antur ar y cae yn ogystal â'r iard;
- rhoi arwyddion ar yr iard ar i ddangos ble mae'r gwahanol ardaloedd chwarae; (**Pwyllgor Gorau Chwarae Cyd-chwarae**);
- cael siwmperi ysgol â llythrennau cyntaf enwau disgyblion arnyn nhw, er mwyn osgoi cymaint o ddillad coll;
- mwy o gyfleoedd i ddefnyddio offer gwyddoniaeth, ymarfer corff a choginio Penweddig;
- cyfleoedd i ddysgu ieithoedd tramor (**Mr Williams**).

Diolchodd Gethin i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

Cyfarfod yn gorffen – 9:30yb